Partneriaeth Compass

Credwch mewn plant

Barnardo's Cymru

Mae Compass yn cynnig amryw o wasanaethau cynghori a chefnogi i deuluoedd, ac i bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed sydd mewn angen cymdeithasol ac sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

Wrexham County Borough / Bwrdeistref Sirol Wrecsam

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

ESF
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich Dyfodol
Europe & Wales: Investing in your Future
European Social Fund

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Gwasanaeth Cefnogi Tenantiaethau a Theuluoedd

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill ac yn cynnig cyngor a chefnogaeth i bobl ifanc ar nifer o faterion pwysig sy'n eu hwynebu. Mae'r gefnogaeth yn wirfoddol ac yn seiliedig ar anghenion yr unigolyn ifanc. Gallwn gynnig cefnogaeth i rai sy'n ei chael yn anodd gofalu am eu cartref a thalu biliau, sy'n rhieni ar eu pennau eu hunain, sy'n cael problemau emosiynol, neu sy'n cael trafferth cael gwaith, addysg neu fudd-daliadau, gyda'r nod o hyrwyddo annibyniaeth. Rydym yn annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau unigol a gweithgareddau grŵp.

Cynhelir ein **Grŵp Rhieni Ifanc** ar brynhawn dydd Mawrth rhwng 1 a 3 pm. Mae'n grŵp bychan cyfeillgar, sy'n ddelfrydol os ydych am gael sgwrs neu baned o goffi, gyda digon o weithgareddau i gadw'r plant yn ddiddig, gan gynnwys peintio, gludo, a chlai chwarae. Rydym yn darparu byrbryd iach a diod. Gallwch fynychu'r grŵp yn rhad ac am ddim.

Mae'r Gwasanaeth Cefnogi Tenantiaethau a Theuluoedd yn derbyn atgyfeiriadau gan asiantaethau, neu gall pobl ifanc atgyfeirio eu hunain.

Cyfarfodydd Grŵp Teulu

Mae'r **Gwasanaeth Cyfarfodydd Grŵp Teulu** yn dod ag aelodau o deuluoedd a phobl broffesiynol at ei gilydd i wneud cynlluniau diogel a phositif ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'n canolbwyntio ar y plentyn/unigolyn ifanc ac yn annog gwneud penderfyniadau sy'n rhoi lle canolog i'r teulu. Mae'n helpu teuluoedd i ddatrys eu problemau eu hunain, sy'n sicrhau eu bod yn ymroi i ofalu bod eu cynlluniau'n gweithio. Mae'r Gwasanaeth yn derbyn atgyfeiriadau gan Wasanaeth Plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar hyn o bryd.

Gorchmynion Gweithgareddau Cyswllt

Mae'r Llys i Blant a Theuluoedd yn cyfeirio Gorchmynion Gweithgareddau Cyswllt at Barnardo's pan fo anawsterau'n codi mewn perthynas â'r plentyn/plant wrth i rieni wahanu neu ysgaru. Caiff y gorchmynion hyn eu cyflwyno ar sail 1:1 neu mewn sefyllfa grŵp.

Mae dau fath o orchymyn, sef: Sesiwn awr o hyd sy'n rhoi gwybodaeth gyffredinol am gyfryngu, sut y gall rhieni helpu eu plentyn/plant orau, y canolfannau cyswllt sydd ar gael a gwybodaeth ynghylch gwasanaethau

cynghori a chefnogi, neu gwrs pedair awr (wedi'i rannu'n ddwy sesiwn) sy'n trin a thrafod rhai o'r anawsterau mae rhieni a phlant yn eu hwynebu pan mae rhieni'n gwahanu.

Y Gwasanaeth Opsiynau

Cynllun ar gyfer pobl ifanc di-waith 16 i 25 oed sy'n gadael gofal yw'r Gwasanaeth Opsiynau. Caiff ei ariannu drwy'r Loteri Fawr. Rydym yn gweithio gydag unigolion i'w helpu i gael mynediad at addysg, hyfforddiant neu waith ac i aros ar y trywydd iawn.

Rydym yn cynnig cefnogaeth ac arweiniad sydd wedi'i deilwra'n arbennig i anghenion unigol, ynghyd â rhaglen strwythuredig sy'n para 12 wythnos ddwywaith y flwyddyn ar gyfer grwpiau bach o bobl ifanc.

Mae'r gefnogaeth yn cynnwys cymorth ymarferol â chludiant a gofal plant, yn ogystal â thîm mewnol sy'n helpu pobl ifanc i ddelio â phroblemau personol a allai fod yn llesteirio eu datblygiad - megis ymdeimlad o hunanwerth a chamddefnyddio sylweddau.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â darparwyr hyfforddiant a busnesau lleol i helpu pobl ifanc i gyflawni eu nodau addysgol a'u huchelgeisiau gwaith.

Prosiect Perthnasoedd mewn Dirwasgiad

Mae'r Prosiect Perthnasoedd mewn Dirwasgiad yn rhoi cefnogaeth ddwys i bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed drwy raglenni gwaith grŵp a/neu gefnogaeth 1-1 achlysurol.

Pwrpas y rhaglenni yw rhoi'r sgiliau, yr hyder a'r technegau ymdopi angenrheidiol i bobl ifanc a fydd yn eu galluogi i wella ansawdd cyffredinol

eu bywyd mewn perthnasoedd anodd, lle mae cam-drin domestig mewn perygl o waethygu oherwydd pwysau ariannol ychwanegol yn sgil y dirwasgiad. Ariennir y Prosiect Perthnasoedd drwy'r Loteri Fawr, a chaiff ei hwyluso ar y cyd gan Gynghorydd Perthnasoedd cymwys a gweithiwr prosiect Barnardo's.

Gwirfoddoli

Mae gwirfoddolwyr yn chwarae rhan hollbwysig yng nghyswllt cefnogi a gwella'r gwaith rydym yn ei wneud yn Barnardo's. Rydym yn gwneud ein gorau i greu rolau gwerthfawr, llawn boddhad sy'n golygu ein bod yn defnyddio sgiliau unigryw pob gwirfoddolwr unigol. Felly, rydym yn cynnal nifer o grwpiau chwarae yn ogystal ag amryw o gyfarfodydd grŵp a mentora.

Gall unrhyw un fod yn wirfoddolwr gan ein bod yn darparu hyfforddiant lle bo angen ac mae gwirfoddolwyr yn cael cefnogaeth lawn gydol eu hamser gyda ni.

> **Rydw i wedi mwynhau fy nghyfnod fel gwirfoddolwr yn fawr iawn ac rwy'n gwybod bod cefnogi Barnardo's, hyd yn oed mewn ffordd fach, wedi cyfrannu at ddyfodol gwell i blant a phobl ifanc.**

(Gwirfoddolwr gyda Barnardo's)

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'n Cydlynydd Gwirfoddolwyr.

Gwasanaeth Cyngor a Llety

Cynigir gwasanaeth **Cyngor ar Dai** cyfrinachol am ddim i bobl ifanc ddigartref ac i rai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Mae'r gwasanaeth yn cynorthwyo pobl ifanc â cheisiadau am dai, hawliadau am fudd-dal tai ac atgyfeiriadau i asiantaethau a mudiadau eraill.

Mae'r **Cynllun Gwarantu Bondiau** yn rhoi cymorth i bobl ifanc sydd ar incwm isel, gan gynnwys rhai sy'n hawlio budd-daliadau tai, i gael mynediad at eiddo yn y sector preifat. Mae'r bond yn rhoi sicrwydd sydd gyfwerth â hyd at bedair wythnos o ôl-ddyledion rhent ac iawndal os ceir difrod neu os bydd y tenant yn gadael.

Gall pobl ifanc fanteisio ar y gwasanaethau hyn drwy gael eu hatgyfeirio gan asiantaeth, neu drwy atgyfeirio eu hunain.

Credwch mewn plant

Barnardo's Cymru

Partneriaeth Compass Barnardo's
Bryn Hyfryd
2 Ffordd Grosvenor
Wrecsam LL11 1BU

Ffôn: 01978 315130
Ffacs: 01978 315131
E-bost: compasspartnership@barnardos.org.uk
www.barnardos.org.uk/compass

Amserau Agor:
Dydd Llun, dydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Iau: 9am – 5pm
Dydd Gwener: 9am – 4.30pm

Rhifau Cofrestru'r Elusen Barnardo's 216250 a SC037605

13604/CD/11